

YSGOL SYR HUGH OWEN Caernarfon



Cylchlythyr y Pennaeth, PASG 2018

Annwyl Riant/Warcheidwad,

Dyma ni wedi cyrraedd diwedd tymor prysur a llwyddiannus iawn yng nghalendr Ysgol Syr Hugh Owen. Yng nghanol prysurdeb dyddiol ysgol yn ogystal â cheisio ymdopi gyda heriau'r tywydd newidiol, mae'n hawdd anghofio weithiau ein bod yn dathlu tymor hynod llwyddiannus unwaith eto:

- llwyddiant ysgubol yn yr Eisteddfodau Cylch a Sir a nifer o ymarferion dyddiol i baratoi at yr Eisteddfod Genedlaethol yn parhau;
- nifer o gystadlaethau chwaraeon llwyddiannus dros ben gyda sawl unigolyn/ tîm yn mynd ymlaen i gynrychioli'r ysgol yn y rowndiau nesaf, gan gynnwys rhai disgyblion yn mynd ymlaen i gynrychioli Cymru mewn gwahanol gampau;
- cynnal teithiau amrywiol i ymestyn profiadau ein disgyblion- teithiau pêl-droed i Everton, teithiau pêl-fasged i'r Amwythig, a theithiau rygbi i R.G.C. Bae Colwyn;
- casglu arian at achosion da niferus gan gynnwys Cronfa Alder Hey Kaiden Pritchard, ein ysgol bartner yn Sambia, ac i gronfa Tŷ Gobaith;
- Diwrnod Sgiliau arbennig a oedd yn llawn profiadau gwerthfawr i bawb,
- Mentora BI 11 wedi dechrau fydd yn golygu bod bob disgybl targed BI11 yn cael sylw unigol ychwanegol gan aelod o'r UDRh yn wythnosol,
- taith gerdded nodedig i ddisgyblion blynyddoedd 7-9 i godi arian at ein ysgol bartner yn Sambia;
- hwyluso trefniadau cysylltu gyda'r ysgol drwy sefydlu cyfrifon Twitter, Facebook a School Comms;
- ychwanegu 'Seren yr Wythnos' i gyhoeddiadau bob Dydd Gwener i ddathlu llwyddiannau ein disgyblion yn gyhoeddus yn wythnosol; a
- nifer cynyddol o staff wedi bod yn rhannu arfer dda/ cynnig cymorth i ysgolion eraill ar gais GwE ac yn cael eu canmol yn fawr am eu cyfraniadau gwerthfawr.

Fel y gwelwch uchod, mae'r holl weithgareddau a llwyddiannau'n niferus - Prawf cadarn bod Ysgol Syr Hugh Owen yn ysgol gynhwysol a chymunedol lle mae'r gallu i hunan wella'n amlygu ei hun fwy fwy'n ddyddiol. Pawb yn gwella gyda'n gilydd yn wir!

Gwisg Ysgol

Hoffwn ddiolch i'r holl rieni sydd wedi bod yn cefnogi'r ysgol trwy sicrhau bod y disgyblion yn mynychu'r ysgol yn eu gwisg ysgol gywir yn ddyddiol. Carwn atgoffa pob rhiant y byddwn yn disgwyl y safon uchaf o wisg ysgol gan bawb yn dilyn Gwyliau'r Pasg a byddwn yn gweithredu'n gyson a theg i sicrhau hyn. Diolchaf i chi ymlaen llaw am eich cefnogaeth. Cysylltwch â'r ysgol petai unrhyw anhawster yn codi wrth geisio prynu gwisg. Diolch am eich cydweithrediad.

Dyddiadau Pwysig i'r dyddiadur

- **Mawrth 23ain** – Diwedd tymor
- **Ebrill 9fed** - Ysgol ar ail-agor i staff a disgyblion
- **Ebrill 30ain – Mai 3ydd** – Profion Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol
- **Ebrill 17** – Noson Rieni Blwyddyn 8
- **Mai 1af** – Noson Rieni Blwyddyn 7
- **28/05/18 - 01/06/18** - Gwyliau Hanner Tymor

Neges i ddisgyblion a rhieni Blwyddyn 11 ac 13

Mae presenoldeb yn allweddol ar gyfer llwyddiant TGAU a Safon Uwch, nodaf y dyddiadau canlynol er mwyn cynorthwyo pawb i sicrhau na fydd tarfu ar gyfnodau arholi ac asesu.

- Gwersi Adolygu Mathemateg ychwanegol dros y Pasg - Bydd gwersi ychwanegol TGAU Mathemateg Bl11 yn cael eu cynnal ar gyfer grwpiau targed Ms Delyth Buse yn ystod y gwyliau Pasg ar y **4ydd a'r Sed o Ebrill rhwng 9:00 - 1:00 o'r gloch.**
- Disgyblion TGAU Daearyddiaeth gyda cyfnod adolygu **Dydd Mawrth, Mawrth 27ain, 9.00 tan 1.00 o'r gloch.**

- **Ebrill 17** - Arholiadau Llenyddiaeth Cymraeg Sylfaenol
- **Ebrill 18**- Arholiad Llenyddiaeth Cymraeg Haen Uwch *Higher Tier*
- **Ebrill 24** - Arholiad Ymarferol Uned 5 Ffiseg Bl. 13
- **Ebrill 27th** - Arholiad Dadansoddi Uned 5 Ffiseg Bl. 13
- **Mai 1af** - Arholiad ymarferol Uned 5 Bioleg Bl. 13
- **Mai 4ydd** - Arholiad ymarferol Uned 5 Bioleg Bl. 13

Bydd rhagor o ddyddiadau allweddol yn cael eu rhannu gyda chi yn fuan.

Diolch am eich cefnogaeth parod. Cofiwch am twitter/Facebook am y newyddion diweddaraf ac mae linc i'r Seren Syr Hugh diweddaraf ar ein gwefan.

Dymuniadau Gorau am Basg Hapus i chi gyd!

Yn gywir,

Mrs Parry Jones
(Pennaeth Mewn Gofal)